# Ysgrifennu perswadiol

Gwerthu Talacharn

**Yr allwedd i ysgrifennu perswadiol llwyddiannus yw dysgu'r technegau**
**Sawl un gallwch chi feddwl amdanyn nhw?**

- Gorliwio
- Gwahoddiad i feddwl yn gadarnhaol
- Honni - safbwynt wedi'i fynegi fel ffaith
- Defnyddio iaith ddisgrifiadol ddeniadol
- Annerch y darllenydd yn uniongyrchol
- Apelio at y synhwyrau
- Apelio at y galon - iaith emosiynol
- Apelio at y pen - ystadegau (tystiolaeth galed) a barn (tystiolaeth feddal)
- Cymhelliant - gwobrwyon a chynigion

# Nodweddion perswadio da

- ✓ Gwnewch iddo swnio fel petai'n bwysig
- ✓ Apeliwch at deimladau ac emosiynau
- ✓ Rhowch fygythiad: os byddan nhw'n methu gweithredu, bydd hynny'n allweddol
- ✓ Defnyddiwch gwestiynau rhethregol
- ✓ Defnyddiwch restri tair rhan, e.e. tri gair emosiynol, tri rheswm
- ✓ Defnyddiwch ansoddeiriau cryf ('gorau' 'anhygoel') a berfau cryf ('rhaid' 'dylai')
- ✓ Defnyddiwch y person cyntaf fel bod y ddadl yn gryf a defnyddiwch yr ail berson i gynnwys y gynulleidfa
- ✓ Trefnwch eich ysgrifennu'n baragraffau a chysylltwch y syniadau â chysyllteiriau = er hynny, fodd bynnag, tra.

# Eich tasg yw ysgrifennu araith berswadiol sy'n annog pobl i ymweld â Thalacharn








© Garth Newton

# Trafodaeth ddosbarth: Creu meini prawf llwyddiant

- Meddyliwch: Beth yn eich barn chi sy'n rhaid ei gynnwys er mwyn bod yn llwyddiannus?

  1 funud o amser meddwl unigol
- Pâr: Trafodwch eich syniadau â'ch partner

  2 funud o amser trafod mewn pâr
- Rhannwch: Rhannwch eich syniadau fel dosbarth

# Beth mae angen inni ei gynnwys?

**Iaith Berswadiol**

★Trioedd
★Cwestiynau Rhethregol
★Iaith Emosiynol
★Rhestri
★Y Gorchmynnol
★Ffeithiau a Ffigurau
★Siaradwch yn uniongyrchol â'ch cynulleidfa
★Unwch y gynulleidfa â'r darllenydd
★Ansoddeiriau eithaf
★Dyfyniadau
★Ailadrodd

- ❖ Defnyddiwch *o leiaf* un enghraifft o bob un o'r technegau iaith a restrir gyferbyn;
- ❖ Dilynwch strwythur rhesymegol;
- ❖ Dangoswch eich personoliaeth er mwyn ymgysylltu â'r darllenydd;
- ❖ Amrywiwch eich geirfa;
- ❖ Cyfeiriwch at eich ymchwil;
- ❖ Ysgrifennwch ddiweddglo cryf i'ch araith;
- ❖ Rhowch eich barn ond cefnogwch hi bob amser â thystiolaeth/esboniad;
- ❖ Rhowch enghreifftiau neu fanylion twristiaeth lle y bo'n briodol.

# Gwaith Pâr

- Trafodwch beth yn eich barn chi yw'r allwedd i annog pobl i ddod i Dalacharn;
- Llenwch y daflen gynllunio 'Gwerthu Talacharn'.